

YSGOL GLAN Y MÔR, PWLLHELI
ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWODRAETHWYR
2014-15

CORFF LLYWODRAETHU 2014/15

PENNAETH:
Mrs Menai Jones

RHIANT-LYWODRAETHWYR: Etholir hwy gan y rhieni am dymor o 4 blynedd.

Mrs Louise Jones	-	Rhagfyr 2017
Mr Iolo Jones	-	Awst 2015
Mr Richard Derwyn Jones	-	Awst 2016
Mrs Wendy Murray Williams	-	Medi 2018
Mr Arwel Hughes	-	Awst 2015

ATHRO-LYWODRAETHWYR: Etholwyd gan yr athrawon o'u plith eu hunain

Mr Thomas Elwyn Jones	-	Awst 2017
Miss Llinos W Griffith	-	Awst 2016

STAFF-LYWODRAETHWYR: Etholwyd gan staff ategol yr ysgol o'u plith eu hunain

Mrs Wenna Roberts	-	Awst 2016

LLYWODRAETHWYR A.A.Ll. GWYNEDD: Penodir hwy gan yr Awdurdod Addysg Lleol

Mr John Gareth Owen	-	Awst 2015
Cyng. Bob Wright	-	Awst 2016
Mr Gwyn Bere	-	Ebrill 2017
Cyng. Michael Sol Owen	-	Awst 2016

LLYWODRAETHWYR CYMUNEDOL: Gwahoddir hwy i ymuno â'r Bwrdd oherwydd eu harbenigedd.

Parch Bryn Williams	-	Rhagfyr 2018 (cadeirydd)
Mrs Ceinwen MacNaughton	-	Ebrill 2018
Mrs Eleri Ll. Owen	-	Mai 2017
Mr Meurig Jones	-	Awst 2016

CYNGOR YSGOL: Cynrychioli'r disgyblion

Non Jones	-	Awst 2015
Keiren Roberts	-	Awst 2015

Ex- Officio : Mr Guto Wyn a Dr Simon Hughes.

Clerc i'r Llywodraethwyr - Miss Anwen Bumby, Swyddog Gweinyddol, Ysgol Glan-y-môr

Gellir cysylltu â'r Cadeirydd drwy'r Pennaeth, neu Swyddog Gweinyddol yr ysgol

Cynhelir etholiad nesaf am riant llywodraethwr yn ystod Medi 2015.

CYSYLLTIADAU Â'R GYMUNED

i) Yn ystod y flwyddyn, trefnwyd i bob disgybl ym Mlwyddyn 10 dreulio wythnos ar "Brofiad Gwaith". Diolchwn i fusnesau lleol am eu cydweithrediad parod.

ii) Fel rhan o raglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol yr ysgol, bu'r Rhingyll Dewi Owen yn ymweld â'r ysgol yn gyson, i drafod materion megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnydd o TGCH a chamddefnyddio sylweddau e.e. cyffuriau ac alcohol. Cydweithiwn yn yr un modd â'r Adran Hybu Iechyd. Bydd nyrs yn cynnal 'clinig' wythnosol yn yr ysgol. Yn ogystal mae'r nyrs yn cyfrannu i wersi ABCH yn achlysurol.

iii) Trefnwyd Ffair Aeaf gan ddisgyblion blwyddyn 10 sydd yn dilyn cwrs BAC, gwahoddwyd nifer o fusnesau ac elusennau lleol i arddangos a gwerthu eu cynnyrch.

iv) Parheir i gydweithio, pan yn briodol, gydag Asiantaethau allweddol megis y Gwasanaethau Cymdeithasol.

v) Gwahoddwyd nifer o henoed yr ardal i de prynhawn a oedd wedi ei baratoi gan ddisgyblion Arlwyo'r ysgol.

vi) Bu i ddisgyblion yr ysgol gymryd rhan mewn cystadleuaeth wedi ei drefnu gan fudiad y Rotari yma ym Mhwllheli. Cafwyd cryn lwyddiant gyda disgyblion yn mynd ymlaen i gystadlu ar lefel rhanbarthol.

vii) Bu'r ysgol yn casglu Tocynnau "Wishes" y Daily Post a llwyddwyd i dderbyn swm sylweddol o arian. Rydym yn werthfawrogol o gefnogaeth y rhieni, teulu estynedig a'r gymuned i'n cynorthwyo i gasglu gymaint o docynnau.

viii) Rhoddodd disgyblion yr ysgol gefnogaeth ymarferol i fudiadau megis " Gafael Llaw", Sefydliad y Galon, "Cymorth Cristnogol", "Jeans 4 Genes", "Roald Dahl Foundation" ,"Malcolm Sargeant Fund for Sick Children", Achub y Plant, Apel Nepal, Comic Relief, Operation Christmas Child, Macmillan ,Tŷ Gobaith , Plant Mewn Angen a banc bwyd Pwllheli

ix) Mae'r ysgol yn parhau i noddi plentyn yn y trydydd byd drwy gynllun "Action Aid".

x) Bu disgyblion yr ysgol yn llwyddiannus iawn yn eisteddfodau lleol , Eisteddfodau'r Urdd ac ar y meysydd chwaraeon.

xi) Bu offeiriad neu weinidog lleol yn ymuno â ni yn achlysurol yn ein gwasanaeth boreol.

xii) Bu cynrychiolwyr o fusnesau lleol yn ymweld â'r ysgol er mwyn gwella'r berthynas rhwng yr ysgol a "byd gwaith".

xiii) Cedwir cysylltiadau agos â'r ysgolion cynradd sy'n ein bwydo a gyda Choleg Meirion-Dwyfor. Bu cynrychiolydd o'r Coleg yn mynychu'r ysgol yn wythnosol. Bu nifer o ddisgyblion Blw-10 / 11 yn dilyn cyrsiau galwedigaethol am gyfnod o fore neu brynhawn yn y coleg.

xiv) Ymdrechir i greu, a chadw, cysylltiad agos ac agored gyda rhieni ein disgyblion. Gwneir pob ymdrech gan yr Uwch Dim Rheoli neu'r Penaethiaid Blwyddyn i ymateb i geisiadau i weld rhieni o fewn amser rhesymol. Trefnwyd 'clinig' i geisio goresgyn problemau pynciol a chynhaliwyd Cyfarfod Rhieni ar gyfer pob blwyddyn yn eu tro a chyfarfodydd ychwanegol i drafod agweddau perthnasol o waith y disgyblion yn CA4.

xv) Mae'r ysgol yn cydweithio gydag Antur Waunfawr trwy gasglu dillad i'w hail gylchu. Gosodwyd bin casglu dillad ar dir yr ysgol.

xvi) Eleni eto bu'r ysgol yn cydweithio gyda threfnwyr "Nadolig ym Mhwllheli" drwy baratoi cerfluniau i addurno safleoedd o fewn y dref.

xvii) Gwefan yr ysgol. Yno ceir gwybodaeth am bolisïau a gweithgareddau'r ysgol. Cyfeiriad y safle ydi: www.glanymor.org

POLISÏAU

Yn ystod y flwyddyn mabwysiadwyd y polisïau a nodir yn atodiad 1 gan y Llywodraethwyr:

IECHYD A DIOGELWCH

i) Bu i Lywodraethwyr yr ysgol fuddsoddi yn helaeth ar system ddiogelwch drysau allanol ar gyfer yr ysgol a hefyd wedi gosod giât i rwystro mynediad amhriodol i dir yr ysgol yn ystod y dydd a min nos.

ii) Bu'r Cyngor yn gwneud gwaith ar draeniau'r ysgol.

iii) Mae'r ysgol mewn trafodaethau gyda swyddogion y Cyngor ynglŷn â chyflwr y to. Mae'r diffygion yn y to newydd yn achosi problemau , yn arbennig mewn un dosbarth dysgu.

iv) Gyda'r holl amrywiol weithgareddau sy'n digwydd yn yr ysgol, fe fyddwn, o bryd i'w gilydd, yn tynnu lluniau o'r plant. Y mae'n bosib y defnyddir y lluniau hyn i bwrpas hysbysebu gweithgareddau'r ysgol neu'r Cyngor Sir. Gall lluniau ymddangos ar goridorau'r ysgol, mewn papur newydd neu ar wefan yr ysgol. Os nad ydych yn dymuno i'ch plentyn gael ei gynnwys mewn lluniau o'r fath, dylech ysgrifennu at y Pennaeth i ddweud hynny.

v) Y mae'r ysgol yn cadw data personol am ddisgyblion ac wedi cofrestru hynny gyda'r Cofrestrydd Data. Y mae yma system teledu cylch cyfyng sydd yn recordio a'i defnyddio i bwrpas diogelwch.

ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG / DISGYBLION AG ANABLEDDAU

Derbyniodd y Llywodraethwyr adroddiad am waith yr Adran gan y Llywodraethwraig ddynodedig.

Nod yr ysgol yw sicrhau'r ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol, orau bosib i ddisgyblion ag anghenion arbennig, gan sicrhau hefyd cyfleoedd cyfartal iddynt o'u cymharu â disgyblion eraill.

Mae dwy athrawes sef Mrs Sue Peace a Mrs Ann Roberts ,sy'n arbenigo mewn addysgu disgyblion ag anawsterau dysgu penodol (Dyslecsia), yn gyflogedig yma yn yr ysgol yn rhan amser. Bellach mae gan yr ysgol uned gynhwysiad ble mae athrawes arbenigol yn gweithio gyda disgyblion sydd angen sylw i reoli ymddygiad a chymorth gyda rhai agweddau o'u gwaith.

Bellach mae Cyngor Gwynedd wedi addasu'r adeilad i sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion ag anableddau, gwneir pob ymdrech i sicrhau mynediad i bob disgybl.

CHWARAEON

Nodau:

i) Sicrhau bod cynifer ag sy'n bosib o'r disgyblion yn cymryd rhan, yn mwynhau a chael cyfle i ddatblygu eu sgiliau chwaraeon i'r lefel uchaf bosibl.

ii) Cynnig ystod eang o chwaraeon – ar gyfer unigolion a thimau.

iii) Trefnu chwaraeon gyda thimau o blith yr ysgol ac yn erbyn timau o ysgolion eraill.

iv) Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gynrychioli'r ardal, y sir a Chymru.

v) Annog disgyblion i fanteisio ar weithgareddau 5 x 60.

Y Gweithgareddau a gynigir:

Pêl droed, Pêl-rwyd, Rhedeg Traws-gwlad, Rygbi, Rownderi, Criced, Badminton, Pêl-fasged, Gymnasteg.

Yr Amserlen:

O fewn amserlen 30 cyfnod, neilltuir 2 gyfnod yr wythnos ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon, yng Nghyfnod Allweddol 3 ac yng Nghyfnod Allweddol 4, neilltuir 1 cyfnod yr wythnos ar gyfer chwaraeon. Cynigir cwrs TGAU yn y maes i Flw-10 ac 11.

Y Cyfleusterau

Mae gan yr ysgol 2 maes pêl-droed, 1 maes rygbi a 1 maes hoci. Mae cyrtiau ar gyfer tennis a phêl-rwyd. Mae llain ar gyfer rownderi a wiced bob tywydd ar gyfer criced. Caiff yr ysgol ddefnydd bob dydd naill ai o'r Pwll Nofio neu'r Neuadd Chwaraeon yn y Ganolfan Hamdden.

Mae cae bob-tywydd ar safle'r ysgol sydd ar gael ar gyfer defnydd gan yr ysgol, ysgolion cynradd y dalgylch a'r gymuned leol.

Staffio:

Mae dau aelod o staff arbenigol yn yr adran Addysg Gorfforol gydag aelod arall o staff yn cyfrannu'n rhan-amser. Gwneir defnydd, hefyd o staff arbenigol y Ganolfan Hamdden ar gyfer rhai gweithgareddau (e.e. nofio, cynllun ffitrwydd unigol).

Mae cyswllt agos hefyd â chlybiau chwaraeon lleol e.e. Y Clwb Rygbi, Pêl-droed a hoci; y mae cydweithio agos, gan rannu arbenigedd staff a chyfleusterau.

CYNLLUN 5 X 60

Mae Swyddog 5 X 60 Dwyfor yn gweithio yn agos â'r ysgol i drefnu gweithgareddau amrywiol i hybu disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon. Enghreifftiau o rai o'r gweithgareddau a drefnwyd oedd : dodgeball, cheer leading; sboncen; hyfforddiant cerdded, dringo, hwylio neu redeg ar gyfer merched a olygodd fod nifer o enethod a staff wedi cymryd rhan yn "Race for Life"

CYNLLUN GWEITHREDU ÔL-AROLWG

Cynhaliodd Estyn Arolwg ar Ysgol Glan y Môr ym mis Tachwedd, 2009 a chyfeiriwyd at y "Materion Allweddol" canlynol y dylai'r ysgol ymateb iddynt-

Er mwyn adeiladu ar gryfderau'r ysgol ac ar y gwelliannau a gyflawnwyd ers yr arolwg diwethaf, mae angen i'r ysgol:

- Rhoi sylw i wella perfformiad bechgyn yn CA3
- Sicrhau bod disgyblion yn defnyddio eu medrau siarad yn llawn ar draws pynciau'r cwricwlwm
- Ymestyn disgyblion mwy galluog ar draws pynciau 'r cwricwlwm
- Gwella lefel presenoldeb
- Rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gynnig barn am eu profiadau dysgu
- Dangos i ddisgyblion sut i wella ansawdd eu gwaith drwy gynnig sylwadau penodol ar hyn wrth asesu.
- Sicrhau bod bob pennaeth adran yn arsylwi gwersi ac yn rhoi sylw i gynnydd disgyblion.

Paratowyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg. Bydd yr Uwch Dîm Rheoli yn monitro gweithrediad y cynlluniau hyn yn ystod y flwyddyn.

Mae ffigyrau presenoldeb disgyblion yn cael eu monitro yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwelliant o flwyddyn i flwyddyn.

Mae nifer o weithgorau wedi eu ffurfio, gyda chynrychiolaeth adrannol, i roi sylw i'r materion uchod ac i rannu arferion da.

TARGEDAU'R YSGOL

Mae'r ysgol yn asesu perfformiad disgyblion drwy gydol eu cwrs addysg ac yn defnyddio'r asesiadau hyn, yn ogystal ag asesiadau hanesyddol y disgyblion (yn ôl lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol), ar gyfer gosod targedau erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3 a 4. Yr uwch dîm rheoli sy'n pennu'r targed ac yn fe'u trafodir gyda'r penaethiaid adran ac yna ar lefel adran ac ysgol gyfan.Yna, mae swyddogion addysg o'r Awdurdod yn gwirio'r targedau gyda ni. Disgwylir i ni osod targedau sydd yn heriol ond yn gyraeddadwy; gwnaed hyn a chymeradwywyd y targedau canlynol ar gyfer y tair blynedd 2015-17.

CA3	Haf 2015	Haf 2016	Haf 2017
Cymraeg L5+	94%	95%	95%
Saesneg L5+	91%	92%	94%
Mathemateg L5+	93%	93%	94%
Gwyddoniaeth L5+	93%	95%	95%
DPC	92%	93%	93%
DPC - Bechgyn	94.5%	90%	92%
DPC - Genethod	89%	96%	95%

CA4	Haf 2015	Haf 2016	Haf 2017
Trothwy Lefel 2	84%	84%	90%
Trothwy Lefel 1	97%	100%	100%
Trothwy Lefel 2+	60%	69%	72%
DPC	58%	69%	72%
DPC - Bechgyn	54%	68%	69%
DPC - Genethod	74.5%	76%	76%
% digymhwyster	0%	0%	0%
% presenoldeb	95.5%	95.5%	95.8%

Dyma sut yr oedd canlyniadau 2015 yn cymharu â'n targedau

CA3	Canlyniad	Targed
Cymraeg L5+	94.3%	94%
Saesneg L5+	93.7%	91%
Mathemateg L5+	93.7%	93%
Gwyddoniaeth L5+	94.6%	93%
DPC	91.9%	92%
DPC - Bechgyn	91.2%	94.5%
DPC - Genethod	92.6%	89%

CA4	Canlyniadau 2015	Targed 2015	Targed Cynulliad 2015
Trothwy Lefel 2	82.8%	84%	88%
Trothwy Lefel 1	100%	97%	97.7%
Trothwy Lefel 2+	62.6%	60%	61.2%
DPC	61.6%	58%	58.1%
DPC - Bechgyn	56.6%	54%	
DPC - Genethod	72.6%	74.5%	
% digymhwyster	0%	0%	
% presenoldeb	95.3%	95.5%	

DISGYBLION 2015

Roedd 99 o ddisgyblion yn oed ar Fedi'r 1af, 2015. O'r rhain, aeth 3 i ysgolion eraill, 77 ymlaen i Addysg Bellach, 11 i hyfforddiant, 5 yn gweithio, 2 yn ddi waith a 1 yn parhau yn yr ysgol.

PRESENOLDEB

Dyma ffigyrau'r ysgol, fesul blwyddyn a fesul tymor ar gyfer 2014-15

	Absenoldeb **Heb** Awdurdod			**Presenoldeb**		
	Tymor 1	**Tymor 2**	**Tymor 3**	**Tymor 1**	**Tymor 2**	**Tymor 3**
Blwyddyn 7	0.0%	0.0%	0.0%	96.1%	94.1%	94.8%
Blwyddyn 8	0.0%	0.1%	0.0%	96.1%	94.0%	94.6%
Blwyddyn 9	0.0%	0.0%	0.0%	94.5%	92.9%	92.7%
Blwyddyn 10	0.0%	0.0%	0.0%	95.6%	93.9%	92.8%
Blwyddyn 11	0.0%	0.0%	0.0%	96.8%	95.8%	98.4%

PROSEPECTWS YR YSGOL

Mae newid yn y drefn o gael caniatâd i fynd a disgyblion allan o'r ysgol am wyliau, Mae'n darllen fel a ganlyn:
Ni chymeradwyir i deuluoedd drefnu gwyliau yn ystod y tymor, yn enwedig os yw'r disgyblion ym mlwyddyn 10 ac 11. Dylech gysylltu â'r Pennaeth i drafod unrhyw gais i fynd â disgybl o'r ysgol ar wyliau yn ystod tymor ysgol.

CWRICWLWM

Cyfnod Allweddol 3 (Blynyddoedd 7,8 a 9)

Mae'r ysgol yn cyflwyno gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ond hefyd yn diwallu anghenion bob disgybl. Ar hyn o bryd mae 3 dosbarth cofrestru ym mlynyddoedd 7 ac 8 a 4 ym mlwyddyn 9, gyda rhwng 20 a 30 ymhob un. Ym mlwyddyn 7 caiff y disgyblion eu dysgu mewn grwpiau cymysg eu gallu yn y Saesneg, Gwyddoniaeth a phynciau sylfaen yn ac yn cael eu grwpio yn ôl gallu ym Mathemateg a Chymraeg. Ym mlwyddyn 8 a 9 bydd y disgyblion yn cael eu dysgu mewn grwpiau yn ôl gallu.

Ym mlynyddoedd 7,8 a 9 addysgir y pynciau canlynol:
Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Cerddoriaeth, Celf, Technoleg, TGCh, Addysg Gorfforol a ABCh.
Ar ddiwedd blwyddyn 9 bydd y disgyblion yn dewis eu pynciau ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11.

Bydd rhai disgyblion blwyddyn 7 yn derbyn gwersi estynedig Saesneg a bydd hwyrddyfodiad i Flynyddoedd 7,8 a 9 yn treulio amser yn yr uned iaith ym Mhorthmadog er mwyn dysgu'r iaith Gymraeg.

Cyfnod Allweddol 4 (Blynyddoedd 10 ac 11)

Mae pob disgybl yn dilyn cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel sylfaen neu ganolradd, Mae pob disgybl yn dilyn y cyrsiau canlynol: Cymraeg, Saesneg, Mathemateg , Gwyddoniaeth ac Addysg grefyddol, Addysg Gorfforol, Addysg Gyrfaoedd fel rhan o wersi Addysg Bersonol. Yn ogystal, mae grwpiau opsiwn sydd yn cynnwys y pynciau canlynol:

Dylunio a Thechnoleg, Arlwyo, Tecstiliau, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Technoleg Gwybodaeth, Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Hanes, Iechyd a Gofal, Busnes, Sgiliau Gwaith. Mae'r disgyblion yn gallu mynychu'r coleg lleol i astudio'r pynciau canlynol: Peirianneg Forwrol, Astudiaethau Cyfryngau ac Amaeth.

Mae rhai disgyblion yn dilyn cwricwlwm amgen sydd yn golygu bod eu hamserlen wedi eu teilwrio yn arbennig ac yn cynnwys elfen o brofiad gwaith estynedig.

IAITH GYMRAEG

Ethos Gymreig sydd i'r ysgol a'r Gymraeg yw ein hiaith cyfathrebu a'n iaith weinyddol. Y mae y rhan fwyaf o weithgareddau'r ysgol, megis y gwasanaethau boreol, yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymraeg yw iaith y cyfnodau tiwtorial ond bydd disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid yn mynd i ddosbarth cofrestru arbennig ble y bydd yr athrawon yn cyfieithu ar eu cyfer. Byddwn yn trefnu i ddisgyblion CA3(Blwyddyn 7-9) fynd i'r uned iaith leol ar gwrs dwys i ddysgu'r Gymraeg. Byddwn yn annog yr hwyrddyfodiaid i wneud mwy a mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y cyfnodau tiwtorial hyn wrth i safon eu Cymraeg wella.

Yn unol â Pholisi Iaith y Sir y mae holl ddisgyblion yr ysgol yn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau craidd hyd at ddiwedd Blwyddyn 11. Mae pawb, oni bai am yr hwyrddyfodiaid (sy'n cyrraedd yn ystod blynyddoedd 7-9), a disgyblion Ail Iaith sy'n trosglwyddo o'r cynradd ar Lefel 1 neu 2 yn y Gymraeg yn ei hastudio fel mamiaith ac yn sefyll profion ac arholiadau allanol Iaith Gyntaf. (categori 2A - Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Y mae'r mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol yn perthyn i un o'r carfanau isod:
Carfan A: Disgyblion sydd â sgiliau tebyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl gan ddisgybl o'r oedran yn y Gymraeg a'r Saesneg.
Carfan B: Disgyblion sydd â sgiliau tebyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl gan ddisgybl o'r oedran yn y Gymraeg ond bod angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Saesneg.
Carfan C1: Disgyblion sydd â sgiliau tebyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl gan ddisgybl o'r oedran yn y Saesneg ond bod angen atgyfnerthu rhai agweddau ar eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg.
Carfan C2: Disgyblion sydd â sgiliau tebyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl gan ddisgybl o'r oedran yn y Saesneg ond bod eu Cymraeg yn wan iawn.

Cyfrwng dysgu'r pynciau eraill

CA3 - Bydd disgyblion yr holl garfanau, ac eithrio'r unigolion sy'n perthyn i Garfan C2, yn cwblhau eu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc. Er mwyn hyrwyddo dwyieithrwydd y disgyblion ac ymateb i anghenion gwahanol garfanau gwneir y canlynol :

- Bydd termau / rhai termau pynciol yn cael eu harddangos a'u dysgu'n ddwyieithog.
- Bydd disgyblion C1 yn cwblhau gymaint o'u gwaith drwy'r Gymraeg ag y mae disgyblion carfanau A + B. Os gofynnant, bydd y disgyblion yn derbyn copi dwyieithog / copi Saesneg o ambell gwestiwn / nodiadau / papur prawf er mwyn gallu croesgyfeirio neu gael cymorth ychwanegol gan rieni gartref.
- Er mwyn sicrhau dwyieithrwydd pob disgybl, cynllunnir defnydd bwriadus o'r Saesneg mewn pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg e.e. erthyglau, fideo, DVD, gwefannau, rhaglenni cyfrifiadurol. Rhydd hyn hefyd gyfle i ddisgyblion arfer eu sgiliau trawsieithu.

Wedi i ddisgyblion Carfan C2 fod yn y Ganolfan Iaith bydd targed(au) tymor byr yn cael eu gosod i'r disgyblion gan y Cyd-gysylltydd Ail Iaith. Gofynnir i rai athrawon / pynciau greu cyfleoedd penodol i'r disgyblion hyn gael cwblhau tasgau drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy hynny gael cyfle i gyrraedd eu targed(au.) Bydd yr union dargedau a'r union bynciau a ddewisir yn dibynnu ar gyraeddiadau ieithyddol disgyblion unigol.

CA4 -Ein nod yw sicrhau dilyniant i'r hyn sy'n digwydd yn ystod CA3 a pharhau i hyrwyddo hyfedredd oed-berthnasol yn y ddwy iaith. Y Gymraeg fydd prif gyfrwng astudiaeth yn CA4. Byddwn yn sicrhau dealltwriaeth o dermau pynciol yn ddwyieithog ac yn sicrhau fod papurau arholiad cyfrwng saesneg ar gael i ddisgyblion. Bydd y Cyd-gysylltydd Iaith yn trafod iaith y pynciau dewisol gyda'r disgyblion lle bo'r angen er mwyn sicrhaudilyniant ieithyddol priodol.

CYFLEUSTERAU TOILEDAU

Mae toiledau wedi eu lleoli yn y bloc iaith, prif adeilad ac yn y gampfa. Mae yna doiledau ar gyfer yr anabl yn holl o'r adeiladau ac eithrio'r gampfa. Mae'r cyfleusterau yma yn cael eu glanhau yn ddyddiol.

LLYWODRAETHWYR YN CYNNAL CYFARFODYDD GYDA RHIENI

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Cymru 2013 (adran 94 (13) nid oes yn rhaid i Gyrff Llywodraethwyr yr ysgol gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Bellach mae'r Ddeddf yn caniatáu i rieni ofyn i gael cyfarfod y Llywodraethwyr am hyd at 3 chyfarfod mewn blwyddyn ysgol. Gellir cael fwy o fanylion ar sut i ofyn am gyfarfod drwy unai: Gysylltu â'r ysgol, safle we'r ysgol neu drwy fynd ar safle we'r Cynulliad.
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetingsstatutoryguidance/?lang=cy

Ni dderbyniwyd cais gan rieni i gynnal cyfarfod gyda'r llywodraethwyr o dan y ddeddf uchod.

DYDDIADAU GWYLIAU YSGOL 2015-16

Tymor yr Hydref
Medi 2, 2015 → Rhagfyr 21, 2015
Tymor y Gwanwyn
Ionawr 4, 2016 → Mawrth 24, 2016
Tymor yr Haf
Ebrill 11, 2016 → Gorffennaf 18, 2016
Gwyliau eraill

Hanner tymor yr Hydref	Hydref 26 – 30, 2015
Hanner tymor y Gwanwyn	Chwefror 15 – 19, 2016
Hanner tymor yr Haf	Mai 30 – Mehefin 3, 2016

BWYTA'N IACH

Mae'r ysgol yn gweithredu o fewn mesur bwyta'n iach Llywodraeth Cymru. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng cynrychiolwyr o'r cyngor ysgol a swyddogion y cwmni arlwyo a'r gogyddes. (grŵp Bwyd a Maeth/ SNAG) Mae mewnbwn y disgyblion yn cael ei ymgyffori ym mwydlenni'r ysgol. Bydd y cynrychiolwyr y disgyblion yn rhaeadru eu penderfyniadau yn ôl i'w cyd ddisgyblion.

Canlyniadau'r Ysgol

CYFNOD ALLWEDDOL 3

Crynodeb o ganlyniadau Asesiadau Cwricwlwm Cenedlaethol disgyblion yn yr ysgol (2015) ac yn genedlaethol (2014) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 fel canran o'r rhai oedd yn gymwys i'w hasesu.

		N	D	NC 1,2, 3	1	2	3	4	5	6	7	8
Saesneg	Ysgol	0	0	0	0	0	1	5	19	33	39	3
	Cenedlaethol	0	0	0	0	1	3	10	37	34	14	1
Cymraeg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	6	27	41	23	3
	Cenedlaethol	0	0	-	-	0	2	8	37	38	14	1
Mathemateg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	6	28	33	33	0
	Cenedlaethol	0	0	0	1	1	3	9	30	32	21	3
Gwyddoniaeth	Ysgol	0	0	0	0	0	1	5	34	35	25	0
	Cenedlaethol	0	0	0	0	1	2	7	36	36	17	1
Cymraeg Ail Iaith	Ysgol	0	0	0	0	0	20	0	20	60	0	0
	Cenedlaethol	1	1	0	1	1	4	14	40	28	9	1
Ffrangeg	Ysgol	0	0	0	0	0	3	7	32	35	23	0
	Cenedlaethol	1	2	0	0	1	3	11	37	32	12	1
Dylunio a Thechnoleg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	2	32	41	16	8
	Cenedlaethol	1	0	0	0	1	1	6	40	39	11	1
Technoleg Gwybodaeth	Ysgol	0	0	0	0	0	1	1	33	41	24	0
	Cenedlaethol	0	0	0	0	1	1	6	37	41	14	0
Hanes	Ysgol	0	0	0	0	0	2	6	40	32	15	5
	Cenedlaethol	1	0	0	0	1	2	9	36	35	15	1
Daearyddiaeth	Ysgol	0	0	0	0	0	0	4	38	35	21	2
	Cenedlaethol		0	0	1	1	2	9	36	35	15	1
Celf	Ysgol	0	0	0	0	0	0	5	14	34	24	23
	Cenedlaethol	0	0	0	0	1	1	7	40	36	14	1
Cerddoriaeth	Ysgol	1	0	0	0	0	0	1	39	46	11	2
	Cenedlaethol	1	0	0	0	0	1	7	49	32	9	1
Addysg Gorfforol	Ysgol	1	0	0	0	0	1	4	42	31	19	2
	Cenedlaethol	1	0	0	0	0	1	8	47	32	10	1

Dangosydd Pwnc Craidd*	
Ysgol	91.9
Cenedlaethol	81

D = Wedi'u heithrio neu ddatgymhwyso o dan Adran 113-116 o Ddeddf Addysg 2002
NO1,2,3= Yn gweithio tuag at Lefel 1 N = Ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwyso
PE = yw Perfformiad Eithriadol
* Y ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 mewn naill ai Cymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth mewn cyfuniad.
Sylwer: mae'n bosibl i gyfanswm y rhifau beidio bod yn 100% o achos rowndio

Cyraeddiadau TGAU, CLM ([1]) a chyraeddiadau Cyfatebol

Nifer y disgyblion 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2015: 99
Canran y disgyblion 15 oed:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd drothwy lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg	Dangosydd Pynciau Craidd (2)	Sgôr bwyntiau cyfartalog ehangach fesul disgybl wedi'i chapio (3)	Sgôr bwyntiau cyfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2014/15	100	100	83	63	63	363	583
Ardal ALL2014/15	99	98	89	63	62	362	609
Cymru 2014/15	99	94	83	58	54	342	525
Ysgol 13/14/15	100	98	80	60	59	357	577
Ysgol 12/13/14	100	97	78	59	57	352	574

Nifer y bechgyn 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2015: 52
Canran y bechgyn 15 oed:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd drothwy lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg	Dangosydd Pynciau Craidd (2)	Sgôr bwyntiau cyfartalog ehangach fesul disgybl wedi'i chapio (3)	Sgôr bwyntiau cyfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2014/15	100	100	73	58	58	348	544
Ardal AAL 2014/15	99	97	84	62	61	350	580
Cymru 2014/15	99	93	80	54	51	331	500
Ysgol 13/14/15	100	98	74	55	55	341	540
Ysgol 12/13/14	100	97	74	54	54	337	540

Nifer y merched 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2015: 47

Canran y merched 15 oed:

	gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster	enillodd drothwy lefel 1	enillodd drothwy Lefel 2	enillodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg	Dangosydd Pynciau Craidd (2)	Sgôr bwyntiau cyfartalog ehangach fesul disgybl wedi'i chapio (3)	Sgôr bwyntiau cyfartalog eang am bob disgybl
Ysgol 2014/15	100	100	94	68	68	379	626
Ardal AALl 2014/15	100	98	93	64	63	373	638
Cymru 2014/15	99	96	87	61	58	354	651
Ysgol 13/14/15	100	97	87	65	63	372	615
Ysgol 12/13/14	100	96	83	64	60	366	606

	Canran y disgyblion 15 oed a:		Canran y bechgyn 15 oed a:		Canran y merched 15 oed a:	
	enillodd un CLM (4) neu ragor yn unig	heb ennill cymhwyster cydnabyddedig (5)	enillodd un CLM (4) neu ragor yn unig	heb ennill cymhwyster cydnabyddedig (5)	enillodd un CLM (4) neu ragor yn unig	heb ennill cymhwyster cydnabyddedig (5)
Ysgol 2014/15	0	0.0	0	0	0	0
Ardal AALl 2014/15	0	0.8	0	1.2	0	0.3
Cymru 2014/15	1	1.3	1	1.6	0	1.0
Ysgol 13/14/15	0	0.0	0	0	0	0.0
Ysgol 12/13/14	0	0.0	0	0	0	0.0

(1) I gael manylion ar gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo, sgôr pwyntiau a chyfraniad at y trothwy, gweler y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW) yn http://www.daqw.org.uk/

(2) Mae manylion ynglŷn â pha feysydd llafur sydd ym mhob pwnc ar gael yn y nodiadau cyfarwyddyd.

(3) Cyfrifir y sgôr pwyntiau cyfartalog eang wedi'i gapio gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau.

(4) Cymhwyster Lefel Mynediad.

(5) Yn yr SSSP terfynol, byddwn yn cynnwys y canran o ddisgyblion 15 oed yn ymadael addysg llawn amser gyda dim cymhwyster cydnabyddedig yn lle'r dangosydd hwn, yn dilyn diffiniad y Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol EDU/002.

.. Data ddim ar gael.

CYLLID

Manylion am wariant terfynol 2014-2015 yn amgaeedig.

Ni thelir costau teithio i unrhyw un o aelodau'r corff llywodraethu

CYFRIFON TERFYNOL 2014/15 FINAL ACCOUNTS

	£ Cyllideb Gychwynnol Starting Budget	£ Cyllideb Ddiwygiedig Revised Budget	£ Gwariant Expenditure	£ Gwahaniaeth Variation
Athrawon / Teachers	1514411	1514411	1526677	-12266
Athrawon Llanw ad-daliad/ Supply reimbursement	36636	36636	44629	-7993
Athrawon Llanw arall / Other supply teachers	0	0	1096	-1096
Llan undebol/ Supply for union duties	0	0	-2565	2565
Lleihau Baich Athrawon / Reducing Teachers Workload	30000	30000	27719	2281
Staff Ategol Misol/ Monthly Support Staff	152456	152456	149460	2996
Staff Ategol amser cinio/ Other support staff	38435	38435	27440	10995
Gweithiwr Ieuenctid / Youth Worker	10458	10458	0	10458
Recriwtio/Recruitment	6000	6000	0	6000
Datblygu Staff/Staff Development	6000	6000	1166	4834
Cymorthyddion dysgu / Teaching Assistants	191567	200523	188172	12351
Gwarchod Arholiadau / Exam invigilation	4100	4100	3065	1035
Cynnal a Chadw/ maintenance	21000	36665	36386	279
Trydan / Electricity	21450	21450	22132	-682
Nwy/Gas	20000	20000	12412	7588
Dwr/Water	7500	7500	5985	1515
Contract Glanhau/ Cleaning Contract	52190	52190	52190	0
Defnyddiau Glanhau / Cleaning supplies	1000	1000	580	420
Offer Ymladd Tan / Fire equipment	900	900	119	781
Cynllun Rheoli Carbon / Management of carbon emissions	5280	5280	4600	680
Lwfansau Ceir / Car allowances	1700	1700	1264	436
Lwfans y Pen/ Capitation	45000	45000	34116	10884
Cyfrifiaduron / Computers	3000	3000	2529	471
Canolfan Hamdden / Sport centre	410	410	-8188	8598
Dodrefn / Furniture	1025	1025	1013	12
Costau Arholi / Examination cost	58000	58000	49411	8589
Defnyddiau Swyddfa / Office supplies	1300	1300	1191	109
Post	3000	3000	2396	604
Ffon / Telephone	3000	3000	2170	830
Cynhaliaeth / Sustenance	500	500	315	185
Pwll Nofio / Swimming Pool	5200	5200	5310	-110
Gwasanaethau Cynnal Services	36314	36314	28000	8314
Cerdd / Music	13000	13000	7653	5347
Grant amddifadedd / Deprivation grant	-54162	-54162	-54152	-10
Cynllun Datblygu Ysgol / School Development Plan	10000	10000	2410	7590
Mentoriaid / Mentors	0	0	-1051	1051
Trethi / Rates	70950	70950	70950	0
Cynnal Tiroedd / Ground Maintenance	14270	14270	14270	0
Cyfrifiaduron - cronfa fuddsoddi / Computer investment	10000	10000	0	10000
Codi Safonau CA3 / Improving KS3 standards	-15164	-15164	-15164	0
Llwybrau dysgu 14-19 learning courses	15000	15000	-459	15459
cefnogaeth welsh video network / License and website	2800	2800	1500	1300
Grant refeniw cyrsiau lefel 1 / Level 1 course grant.	0	10000	0	10000
Gwefan a thrwyddedau cyfrifidaurol / License and website	3000	3000	499	2501
gwasanaeth llyfrgell / Library services	612	612	612	0
Cyfiethu / |Translating	4000	4000	3369	631
Gweithgareddau ar ôl ysgol / After school activities	5000	5000	1588	3412
Cyngor Ysgol / School Council	0	0	-70	70
archebion 13/14 heb eu derbyn / 13/14 orders not received	4000	4000	3399	601
Arian Newydd / New Money	10851	10851	10994	-143
Cynnal a Chadw newydd / New Maintenance	14451	14451	13994	457
Prydau ysgol / School Meals	44875	44875	32225	12650
Arian wrth gefn / Reserves	10000	10000	0	10000
cyfanswm gwariant / Expenditure total	**2441315**	**2475936**	**2313357**	**162579**
Gosodiadau / Lettings	-2000	-2000	-470	-1530
Incwm arall /Other income	0	0	-1319	1319
Band 4	-10000	-10000	-10000	0
llog ar balansau/ Interest	0	0	-1474	1474
Cyfanswm Incwm/ Total of income	**-138875**	**-12000**	**-13263**	**1263**
Cyfanswm / Total	2429315	2463936	2300094	163842
cronfa wrth gefn /reserves *	0	55909	0	55909
HMS	0	0	-7821	7821
Cyfanswm Terfynol / Final Total*	**2429315**	**2519845**	**2292273**	**227572**

* defnyddiwyd y balansau ar gyfer gwneud fyny'r diffyg yng nghyllideb 2015/16

* balances were used to make up the shortfall in 2015/16 budget

ATODIAD 1

POLISÏAU A FABWYSIADWYD YN YSTOD 2014-15

Polisi Dirprwyo Cyfrifoldeb Ariannol
Polisi Codi Tal am Weithgareddau
Adolygu Nodau ac Amcanion yr ysgol
Polisi Diogelwch Systemau TGch yr ysgol
Polisi Trefn Rheoli Salwch Ysgolion (staff)
Polisi Alcohol a chyffuriau'r ysgol (staff)
Polisi Defnydd TGCh derbyniol ac E ddiogelwch
Polisi Diogelu Plant mewn Addysg
Polisi addysg Rhyw
Polisi Iechyd a Diogelwch
Polisi Datgelu Troseddau (DBS)
Polisi Chwythu Chwiban
Polisi Cydraddoldeb
Trefniadau Pontio CA2 i CA3
Polisi Cyswllt a Diwydiant.
Polisïau Meddygol - Polisïau Cynhwysiad.
Polisi ar gyfer Dysgwyr Mwy Galluogi a Thalentog
Polisi/Canllawiau Diogelu Rhag yr Haul
Polisi/Rheolau ynglŷn ag absenoldebau athrawon
Cytundeb Cartref – Ysgol
Polisi cynllun rhannu swyddi
Polisi Tymheredd yn y gweithle
Ymddygiad amhriodol tuag at staff yr ysgol.
Polisi defnydd o'r adeilad y tu allan i oriau ysgol.
Polisi a gweithdrefnau aflonyddu a bwlio staff
Polisi Disgyblaeth/Ymddygiad yr ysgol
Polisi gwrth fwlio'r ysgol
Polisi darparu ar gyfer addysg grefyddol ac addoliad
Polisi ar rannu gwybodaeth i rieni sydd wedi gwahanu
Polisi – cyfleusterau undebau athrawon cydnabyddedig
Polisi gweithdrefnau disgyblu staff ar gyfer ysgolion a gynhelir
Polisi Talu Lwfansau i'r Pennaeth ac aelodau o gorff llywodraethol
Cynllun ar gyfer cynyddu mynediad i ddisgyblion ag anableddau.
Gweithdrefnau Medrusrwydd ar gyfer staff addysgu mewn ysgolion 2015
Polisi a gweithdrefnau Achwynwyr di-baid ac ymddygiad afresymol achwynwyr.
Polisi ADY
Polisi Deddf Rhyddid Gwybodaeth
Polisi Rheoli meddalwedd a Thrwyddedau
Polisi Rheolaeth Cyfrineiriau
Polisi cyflwyno cais i weithio'n hyblyg
Polisi Amddiffyn Plant
Polisi Defnyddio Grym Rhesymol
Polisi Cymorth Cyntaf
Polisi Presenoldeb
Polisi Tynnu Lluniau
Polisi Cyfle Cyfartal
Polisi Cynaliadwyedd
Amseroedd Sesiynau ysgol
Polisi Gwisg Ysgol
Polisi/Dogfen Plant yn Baeddu
Polisi Gwaith Cartref
Polisi tywydd Garw
Polisi Cyflenwi
Polisi Cyswllt Cymunedol
Polisi Cwricwlaidd
Polisi Ysgol Ddi-fwg
Polisi rheoli perfformiad
Cynllun cyhoeddi
Polisi cyflog Athrawon
Polisi Rheoli Llau Pen
Polisi Delion a chwynion
Polisi Gweithio'n unigol
Polisi Mynediad

Ein blaenoriaethau ni fel ysgol ar gyfer 2015-2016 fydd:

1. **Codi safonau.**

2. **Sicrhau eich bod yn cael eich ymestyn i'ch llawn botensial.**

3. **Datblygu eich sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCH.**

4. **Sicrhau bod y gwersi yn dda.**

5. **Cynnig cynhaliaeth o ansawdd uchel i ddisgyblion**

6. **Sicrhau bod arweinyddiaeth yr ysgol ar bob lefel yn effeithiol.**